

STORI SAM

Adnodd gwrthfwlio ar gyfer
Ysgolion Cynradd gan
Gomisiynydd Plant Cymru
Ysgrifennwyd gan Ysgol
Gynradd Penygawsi, Llantrisant

Fe fydd e'n gwella

SAM'S STORY

It will get better

An **anti-bullying resource** for
Primary Schools by the Children's
Commissioner for Wales

Written by Penygawsi Primary School,
Llantrisant



www.complantcymru.org.uk
www.childcomwales.org.uk



Ysgol Gynradd Penygawsi
Penygawsi Primary School

PAM MAE'R ADNODD HWN YN BODOLI?

Pan ddaeth Sally Holland yn Gomisiynydd Plant Cymru, bu'n ymgynghori â mwy na 6000 o blant a phobl ifanc i ganfod eu blaenoriaethau. Daeth bwlio i'r amlwg fel prif bryder i blant a phobl ifanc yng Nghymru. I weld beth roedd plant a phobl ifanc yn teimlo fyddai'r ffordd orau o ddelio gyda hynny, lansiodd Sally [Stori Sam](#). lle bu'n ymgynghori â mwy na 2000 o blant a phobl ifanc i ddarganfod barn pobl ifanc ynghylch y ffordd orau o atal bwlio a mynd i'r afael ag ef. Ar ôl gwrandao ar y bobl ifanc, un o brif argymhellion Sally oedd bod pob person ifanc o bob oed yn cael amser bugeiliol wedi'i hwyluso i fyfrio ar eu perthnasoedd a'u trafod. Mae'r adnodd hwn yn helpu pob ysgol gynradd yng Nghymru i alluogi eu disgyblion i gael y profiad hwn trwy fideos, gweithgareddau a chanllawiau ategol.

BETH YW'R ADNODD?

Datblygwyd yr adnodd hwn gan Rebecca Rees, un o athrawon Ysgol Gynradd Penygawsi. Defnyddiodd Rebecca ddull ysgol gyfan o gyflwyno tasg arbennig Stori Sam ym mis Hydref 2016, gan ddatblygu cyfres o gynlluniau gwersi wedi'u gwahaniaethu ar gyfer pob cyfnod allweddol ac addasu adnoddau oedd eisoes yn bodoli. Yr adnodd yw'r dull addysgu a ddefnyddiwyd ym Mhenygawsi, wedi'i amlinellu mewn cyfres o gynlluniau gwersi gyda gwybodaeth ategol ac adnoddau perthnasol. Mae'n gynllun ysgol gyfan o waith sydd wedi'i ddefnyddio a'i brofi, ac y gellid ei ddefnyddio yn ystod wythnos Gwrthfwlio.

BETH FYDD YR ADNODD HWN YN EI GEFNOGI YN FY YSGOL?

Bydd hyn yn cefnogi eich ysgol i ddarparu profiadau cysylltiedig â'u llesiant i'r disgyblion, fel y pennwyd yn [Fframwaith Arolygu Estyn 2017](#) ac mae'n cynnwys gwerthusiad integredig i olrhain effaith y gweithgareddau ar lesiant eich disgyblion. Mae cysylltiad rhwng yr adnodd hefyd â'r [Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol](#) a bydd yn cefnogi datblygiad deilliannau'r FfLIRh. Bydd y disgyblion hefyd yn dod i ddeall eu hawliau, fel y nodwyd yng [Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(CCUHP\)](#), a bydd hynny'n helpu i ddatblygu unigolion iach a hyderus, sy'n gallu cyfrannu fel dinasyddion moesegol, gwybodus yng nghymuned eu hysgol.

ADNODDAU YCHWANEGOL

Mae [Y Ffordd Gywir](#), [Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i addysg yng Nghymru](#), yn rhoi i ysgolion fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer diogelu anghenion a llesiant tymor hir plant a phobl ifanc. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn argymhell bod pob lleoliad addysg yn defnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, a bod hynny'n cynnig fframwaith cydlynus a fydd yn sail ar gyfer gwaith ar lesiant, ymddygiad iach a pherthnasoedd cyfoedion. Gall ysgolion hefyd gyrchu canllawiau ac amrywiaeth eang o adnoddau dysgu ac addysgu i ddatblygu eu dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus gan [Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru](#).



Ysgol Gynradd Penygawsi yn defnyddio dull ysgol gyfan i edrych ar 'Stori Sam' – rhagair gan Rebecca Rees

Ar ôl mynychu'r diwrnod hyfforddiant i Llysgenhadon Gwych ym mis Medi, roedd Ysgol Gynradd Penygawsi yn eglur ynghylch Tasg Arbennig Sally o'r cychwyn cyntaf. Roedd cael cyfle i gymryd rhan fel aelod o staff yn rhai o'r gweithgareddau Stori Sam yn ystod y dydd o gymorth i mi ddatblygu dealltwriaeth dda o natur y dasg a sut bydden ni'n ei defnyddio yn ein hysgol. Ar ben hynny, roedd yr amser meddwl gyda'r Llysgenhadon ar y diwrnod i drafod y dasg yn amhrisiadwy – roedd yn golygu bod gennym ni ffordd glir ymlaen cyn i ni ddychwelyd i'r ysgol, hyd yn oed! Roedden ni'n bendant yn gytûn bod syniad Stori Sam yn rhywbeth y gallen ni fynd ag e nôl i'r ysgol.

Fe wnaethon ni wahaniaethu'r adnoddau er mwyn i ni fedru cynnwys yr ysgol gyfan, gan gynnwys y Meithrin. Mae'n bwysig bod materion megis bwlio yn derbyn sylw fel ysgol gyfan er mwyn arddangos cysondeb ac adlewyrchu'r ethos tîm rydyn ni'n credu ynddo. Rydyn ni eisiau i'n **HOLL** ddisgyblion deimlo'n ddiogel, ac rydyn ni eisiau i'r rhieni wybod bod gennym ni ddull ysgol gyfan o ddelio gyda materion bwlio os a phan byddan nhw'n codi. Roedd defnyddio Stori Sam yn ffordd wych o gyflwyno bwlio fel pwnc a darganfod beth roedd yn ei olygu i'n disgyblion.

Ar ben hynny, roeddwn i'n teimlo ei fod yn bwysig cychwyn yr wythnos drwy asesu dealltwriaeth disgyblion o union ystyr bwlio. Er mwyn gwneud hynny, fe ofynnais i'r athrawon gynnal amrywiaeth o sesiynau amser cylch gyda'u dosbarthiadau i gasglu syniadau a theimladau oedd yn ymwneud â bwlio. Roedd yn hanfodol bod y disgyblion yn deall beth yn union yw bwlio cyn mynd ati i feddwl am Sam a'i stori. Fe gafodd y disgyblion lawer o fwynhad yn siarad ac yn 'dadlwytho' rhai teimladau a phryderon ynghylch y pwnc hwn.


Mae'n wirioneddol bwysig bod rheolau amser cylch yn cael eu pennu cyn y sesiwn, fel bod y disgyblion yn deall yr angen am wrando ac ymateb mewn ffordd briodol. Mae hyn yn sicrhau bod y cylch yn teimlo'n ddiogel ac yn agored – bydd hynny'n golygu bod modd i'r disgyblion siarad yn rhydd heb deimlo fel petaen nhw'n cael eu barnu mewn unrhyw ffordd.

Fel ysgol, rydyn ni wrthi'n datblygu'r defnydd o sgiliau TGCh trwy'r cwricwlwm, a dyna pam bu'r Llysgenhadon a minnau'n ymchwilio i wahanol weithgareddau y gallen ni eu defnyddio. Fe ddaethon ni o hyd i VOKI, ac roedden nhw'n dwlu arno fe, felly roeddwn i'n gwybod y byddai'r disgyblion mewn dosbarthiadau eraill yn ei fwynhau hefyd! Pwy fyddai ddim eisiau ffrind rhithiol yn dweud pethau braf wrthyh chi, wedi'r cyfan?!

Fe wnaeth y Llysgenhadon a minnau gwrdd sawl tro i edrych ar yr adnoddau a gafwyd gan y Comisiynydd cyn trafod beth gallai pob grŵp blwyddyn ei wneud i gwblhau'r gyfres o dasgau. Y cam nesaf oedd crynhoi amrywiaeth o adnoddau a rhoi pecynnau at ei gilydd ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Wedyn rhoddwyd y pecynnau i'r staff ac fe rois i esboniad arnyn nhw yn ystod cyfarfod staff yr wythnos cyn y digwyddiad ei hun. Cynhaliodd Mr. Davies, pennaeth yr ysgol,

wasanaeth ysgol gyfan yr wythnos flaenorol i esbonio beth yw hanfod Wythnos Gwrthfwllo a'r dystiolaeth bwysig ynghylch hynny. I gychwyn Wythnos Gwrthfwllo ei hun, cynhaliodd y Llysgenhadon Gwych wasanaeth ysgol gyfan lle buon nhw'n cyflwyno Sam ac yn adrodd stori amdano/amdani. Ar ben hynny, buon nhw'n esbonio'n fanwl wrth bob grŵp blwyddyn beth oedd yn mynd i ddigwydd ar hyd yr wythnos, a'u bod yn mynd i gynnal amrywiaeth o weithgareddau ar destun Bwlio yn eu dosbarthiadau.

O ran y cwricwlwm, fel ysgol rydyn ni'n dechrau cynllunio pob gweithgaredd trwy edrych ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a bydd gennym ni bob amser ffocws llythrennedd neu rifedd ym mhob gwers. Roedd gan yr adnoddau Stori Sam y rhoeson ni at ei gilydd gysylltiadau llythrennedd gwych – Darllen, Ysgrifennu a Llafaredd. Fe lwyddon ni hefyd i gysylltu'r dasg â'n cynllun gwaith ABCh, sy'n bwysig iawn ym mhob ysgol gynradd oherwydd bod llesiant pob plentyn yn elfen flaenllaw ym mhopeth a wnawn.



Ymwadiad

Nid yw Comisiynydd Plant Cymru yn derbyn cyfrifoldeb am union gynnwys unrhyw ddeunyddiau a awgrymir fel ffynonellau gwybodaeth yn yr adnodd hwn, p'un a yw'r rheiny ar ffurf cyhoeddiadau printiedig neu ar wefan. Yn y deunyddiau hynny defnyddir eiconau, logos, cynnyrch meddalwedd a gwefannau am resymau cyd-destunol ac ymarferol. Ni ddylid dehongli eu defnydd fel cymeradwyaeth i unrhyw gwmnïau penodol na'u cynnyrch. Roedd y gwefannau y cyfeirir atynt yn y deunyddiau hyn yn bodoli ar adeg cyhoeddi. Gofynnir i chi wirio pob cyfeiriad at wefan yn ofalus, i weld a ydyn nhw wedi newid, a'u hamnewid am gyfeiriadau eraill lle bo hynny'n briodol.

DYDDIAD:

GRŴP BLWYDDYN: Blwyddyn 1/2

WYTHNOS GWRTHFWLIO		
Amcan Dysgu / Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd	GWEITHGAREDDAU WEDI'U GWAHANIAETHU	Gwybodaeth Ychwanegol
Amcan Dysgu: Adnabod beth maen nhw'n ei hoffi a beth dydyn nhw ddim yn ei hoffi, beth sy'n deg ac yn annheg, a beth sy'n iawn a ddim yn iawn. Rhannu barn ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw ac esbonio eu barn. <u>Llafaredd ar draws y Cwricwlwm</u> Mynegi barn ar bynciau cyfarwydd. (BI1) Dangos dealltwriaeth o'r hyn maen nhw wedi'i glywed trwy ofyn cwestiynau i gasglu gwybodaeth. Mynegi barn, gan roi rhesymau, a darparu atebion priodol i	<u>BETH RYDYN NI'N EI WELD YN Y BYD O'N CWMPAS?</u> GOFYN Llunio "sbienddrych" drwy roi dwylo dros y llygaid. <i>Beth allwch chi weld yn yr ystafell ddosbarth?</i> Rhannu'r atebion. Mewn parau mae'n rhaid i'r plant feddwl am rywbeth maen nhw wedi sylwi arno yn y maes chwarae heddiw. Rhannu'r rhain gyda'r dosbarth a phenderfynu ydyn ni'n "hoffi" y pethau yma sylwon ni arnyn nhw neu beidio. DATBLYGU Trosglwyddwch wrthyich o law i law mewn cylch - mae pob plentyn yn cael cyfle i orffen y frawddeg <i>Rwy'n hoffi gweld (rhannu) yn y maes chwarae/yr ystafell ddosbarth/y byd oherwydd...</i> <i>Mae'r disgyblion yn tynnu llun rhywbeth yr hoffen nhw ei weld trwy eu "sbienddrych" ar ddarn o bapur.</i> <i>Mae'r disgyblion yn ysgrifennu am eu golygfa, gan roi rhesymau pam bydden nhw'n hoffi ei gweld yn digwydd.</i> ADFYFYRIO	Teimlai athrawon y babanod ei bod hi'n bwysig cychwyn yr wythnos ar nodyn cadarnhaol, a thrafod y byd lle mae'r plant yn byw - yn lleol ac ymhellach i ffwrdd, gan amlygu'r pwyntiau da. Mwynhaodd y disgyblion y sesiwn amser cylch, gan drafod beth gallen nhw weld yn eu hystafell ddosbarth ac yna trafod y pethau roedden nhw'n eu hoffi neu ddim yn eu hoffi. Anogwyd y disgyblion i roi rhesymau am eu hatebion. Roedd yn bwysig bod rheolau'n cael eu sefydlu ar gyfer Amser Cylch; fel arall byddai llawer o ddisgyblion yn siarad yr un pryd, ac roedd angen i'r athrawon sicrhau bod amgylchedd diogel a chefnogol yn cael ei greu o'r cychwyn cyntaf.

gwestiynau. (BI2) Dangos dealltwriaeth o'r hyn maen nhw wedi'i glywed trwy ofyn cwestiynau i ganfod gwybodaeth benodol.	Fel dosbarth lluniwch restr o'r pethau dydyn ni ddim yn hoffi eu gweld; wedi'u rhannu'n tri chategori: y maes chwarae, y dosbarth a'r byd. <i>Ydy bwlio'n ymddangos ar unrhyw un o'r rhestrau hyn? Bwlio yw pan fydd rhywun yn cael ei drin yn wael drosodd a throsodd. Ydy bwlio'n rhywbeth rydyn ni'n ei hoffi? Neu ddim yn ei hoffi? Pam?</i> Trafodwch mewn paruau ac yna creu caseg eira nes bod y dosbarth cyfan wedi rhannu eu syniadau.	Gall athrawon ddefnyddio Hawliau Plant i sefydlu'r amgylchedd hwn drwy greu siarter dosbarth. Lawr lwythwch boster y Comisiynydd Plant ‘Deall eich Hawliau’ i gefnogi eich dosbarth iddynt ddeall eu hawliau.
<u>Llafaredd ar draws y Cwricwlwm</u> Cyfrannu at sgysiau ac ymateb i eraill, gan gymryd tro pan awgrymir hynny. (BI1) Gwranddo ar eraill, gan roi sylw cynyddol, ac ymateb yn briodol fel arfer. Cyfrannu at drafodaeth, gan gadw ffocws ar y pwnc a chymryd tro i siarad. (BI2) Gwranddo ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os bydd angen. <u>Ysgrifennu ar draws y Cwricwlwm</u>	<u>BETH YW BWLIO?</u> GOFYN Adroddwch y rhigwm 'Humpty Dumpty' gyda'ch gilydd fel dosbarth. Esboniwch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i glywed ochr wahanol i'r stori heddiw. <i>Roedd y Brenin yn gwahodd pawb o Wlad y Meithrin i'w barti. Roedd Humpty Dumpty wedi cael gwahoddiad, ond alle fe ddim dod oherwydd ei fod wedi syrthio a brifo'i hunan.</i> <i>Daeth y Prif Was i mewn i'r gegin a dweud ei fod wedi clywed rhyw si nad damwain oedd cwmp Humpty, a bod rhywun wedi'i wthio oddi ar y wal. Roedd wedi clywed mai un o filwyr y Brenin oedd wedi gwneud hynny, a bod dau filwr arall oedd yn sefyll gerllaw wedi chwerthin wrth weld y peth.</i> <i>Doedd y Brenin ddim yn gwybod nad damwain oedd cwmp Humpty, ac roedd yn tybio iddo fod yn lletchwith fel arfer. Dywedodd "Dwy ddim eisiau i Humpty ddod i'r parti nawr, bydd yr holl rwymynnau'n rhoi braw i'm holl ffrindiau."</i>	Yn y wers hon bu'r plant yn archwilio'r rhigwm traddiodol <i>Humpty Dumpty</i> trwy ddrama. Buon nhw'n edrych ar effeithiau negyddol bwlio ar Humpty Dumpty a sut gallen nhw, drwy gydweithio, ymateb yn gadarnhaol i'w sefyllfa a herio'r ffaith ei fod yn cael ei gau allan o'r grŵp. Fe fwynhaodd y disgyblion drafod y stori a chanolbwyntio ar deimladau. Roedden nhw'n gallu dangos empathi a chysylltu'r teimladau hynny â phwyntiau penodol yn eu bywydau eu hunain pan oeddent o bosibl wedi teimlo eu bod yn cael eu gadael allan, neu bod rhywun wedi galw enwau arnyn nhw. Roedd yn bwysig iawn bod gwir ystyr bwlio yn cael ei egluro i'r disgyblion ar

Cyfathrebu'n bwrpasol yn ysgrifenedig, e.e. gellir ei gefnogi â darlun. (BI1) Defnyddio lluniau, symbolau, llythrennau mewn dilyniant a geiriau cyfarwydd i gyfleu ystyr. Ysgrifennu at wahanol ddibenion. (BI2) Ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr i ddarllenwyd arall, a all gynnwys manylion a lluniau.	Siaradwch am beth ddywedodd y Brenin a'i ymddygiad tuag at Humpty. <i>Oedd e'n ymwybodol o'r sefyllfa gyfan? Sut dylen ni ddweud wrth Humpty ei fod e ddim yn gallu dod i'r parti? Beth ddylen ni wneud am y milwyr yna?</i> <i>Mae'r gweision yn cwrdd â Humpty ac yn dweud wrtho fe beth ddywedodd y Brenin. Mae Humpty'n dweud wrth y gweision bod y milwyr wedi'i wthio oddi ar y wal, wedi chwerthin, a'u bod nhw bob amser yn ei alw'n 'Ben Wŷ'.</i> <i>Mae Humpty'n esbonio mai'r hyn frifodd e mewn gwirionedd oedd y milwyr yn sefyll gerllaw heb wneud dim i'w helpu, dim ond ei adael mewn darnau ar y llawr.</i> <i>Mae'n dweud ei fod e'n wir eisiau dod i'r parti. Sut gallwn ni helpu Humpty i ddweud wrth y Brenin beth ddigwyddodd mewn gwirionedd?</i> DATBLYGU Trafodwch gyda'r plant y gwahanol emosiynau y byddai Humpty yn eu teimlo. Er enghraifft, trist, anhapus, wedi'i fwlio, unig, ar ei ben ei hun, wedi brifo. Lluniwch restr o'r geiriau mae'r plant yn eu cynnig, er mwyn iddyn nhw fedru eu defnyddio mewn trafodaeth bellach. <i>Mae'r disgyblion yn tynnu llun Humpty ac yn defnyddio'r geiriau i'w helpu i ddisgrifio sut mae e'n teimlo ar ddechrau'r stori, yn y canol ac ar y diwedd.</i> <i>Mewn parau, mae'r disgyblion yn creu llinell amser ar gyfer stori Humpty, gyda geiriau a lluniau'n dynodi'r digwyddiadau allweddol</i> <i>Mae'r disgyblion yn creu llinell amser ar gyfer stori Humpty, gyda geiriau a lluniau'n dynodi'r digwyddiadau allweddol. Mae'r disgyblion yn paru teimladau â phob digwyddiad allweddol.</i> ADFIFYRIO Fel dosbarth, penderfynwch ar gynllun gweithredu i helpu Humpty.	ddiwedd y wers. Mae angen i'r disgyblion ddeall mai rhywbeth sy'n digwydd droeon yw bwllo, nid rhywbeth sy'n digwydd unwaith. Felly, dyw galw enwau ar rywun ddim yn beth neis, ac mae gwneud hynny unwaith yn gas, ond ddim yn enghraifft o fwlio. Mae'r sesiwn hefyd yn cysylltu ag Erthygl 19: Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel. Gall athrawon lawr lwytho fersiwn hawdd i ddarllen o'r symbolau CCUHP.
---	---	---

Amcan Dysgu: Profi pwysigrwydd perthyn i grŵp.
Deall mwy am beth yw bwlio.
Deall beth ddylen ni wneud os cawn ni ein bwlio.

Llafaredd ar draws y Cwricwlwm
Cyfrannu at sgysiau ac ymateb i eraill, gan gymryd tro pan awgrymir hynny. (BI1)

Gwranddo ar eraill, gan roi sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer.

Cyfrannu at drafodaeth, gan gadw ffocws ar y pwnc a chymryd tro i siarad. (BI2)

Gwranddo ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os bydd angen.

Ysgrifennu ar draws y Cwricwlwm
Cyfathrebu'n bwrpasol yn

PWY YW SAM?

Rhowch yr wybodaeth allweddol am Sam i'r disgyblion:

Mae Sam yn 10 oed ac yn blentyn yn eich ysgol. Mae Sam yn dioddef bwlio. Gallai Sam fod yn fachgen neu'n ferch. Pwy yw Sam a sut mae'n edrych?

GOFYN

Gofynnwch i'r disgyblion drafod y cwestiynau canlynol gyda'u partneriaid.

Pam gallai Sam fod yn dioddef bwlio?

Sut mae Sam yn wahanol i'r plant eraill yn ei (d)dosbarth?

Sut mae Sam yn teimlo yn ystod y bwlio?

Sut gallen ni helpu Sam?

Fyddai Sam yn teimlo'n wahanol petai rhywun yn helpu? Sut?

DATBLYGU

Ar ôl trafod, lluniwch map meddwl o syniadau'r dosbarth, gan gasglu syniadau gan bob grŵp.

Mae'r disgyblion yn tynnu llun o Sam.

Mae'r disgyblion yn tynnu llun o Sam ac yn ysgrifennu brawddeg amdano/amdani.

Gallwch ddefnyddio'r adnoddau yma i greu'r map meddwl: [Pwy yw Sam?](#) a [Pam ydy e/hi'n cael ei b/fwlio?](#)

ADFYFYRIO

Gofynnwch i'r plant feddwl am y gwahanol deimladau oedd gan Humpty ar hyd y stori. Trafodwch y gwahanol ddeinameg sy'n gysylltiedig â'r teimladau hyn, er enghraifft, *gweithredu pendant*, *sydyn pan fyddwch chi'n grac*, *symud yn gyflymach neu'n arafach yn dibynnu ar eich teimladau*. Gofynnwch i'r plant

Cyfle arall gwych i feddwl a thrafod ar y cyd. Fe wnaeth y disgyblion fwynhau darganfod y dasg a thrafod pwy gallai Sam fod. Roedd llawer yn credu bod Sam yn fachgen ac roedd eraill yn meddwl bod Sam yn ferch. Roedd y disgyblion yn deall bod dim ots ai bachgen neu ferch oedd Sam, y peth oedd yn bwysig oedd bod bwlio'n digwydd, a bod hynny ddim yn iawn!

Cafwyd trafodaeth fanwl ynghylch sut a pham gallai Sam ddioddef bwlio. Cynhyrchodd y dosbarth restr helaeth o'u syniadau ar y bwrdd gwyn, a'u cadw i'w defnyddio ar gyfer llunio eu stori y diwrnod canlynol.

Roedd y disgyblion yn awyddus i ysgrifennu eu storïau ac roedden nhw'n gwybod pwy fyddai Sam, pam roedd yn dioddef bwlio, a phwy fyddai'n ei helpu.

Roedd y brasluniau cymeriad yn ffordd wych i'r disgyblion hynny sy'n cael trafferth rhoi eu syniadau i lawr ar bapur ddarlunio eu meddyliau. Cafodd y disgyblion hynny gyfle i esbonio eu

ysgrifenedig, e.e. gellir ei gefnogi â darlun. (BI1) Defnyddio lluniau, symbolau, llythrennau mewn dilyniant a geiriau cyfarwydd i gyfleu ystyr. Ysgrifennu at wahanol ddibenion. (BI2) Ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr i ddarllenydd arall, a all gynnwys manylion a lluniau.	ddangos a dweud wrthyh pa fath o weithredu gan y corff bydden nhw'n ei ddefnyddio i archwilio'r gwahanol deimladau. All y plant ddyfalu'r teimlad o'r weithred?	cymeriad ar lafar, beth oedd yn digwydd iddyn nhw a sut roedden nhw'n teimlo. Petai hynny'n digwydd eto, byddai tystiolaeth fideo yn cael ei chasglu. Mae'r sesiwn yn cysylltu ag Erthygl 12: Eich hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnoch. Lawr lwythwch fersiwn hawdd i ddarllen o symbolau CCUHP.
Amcan Dysgu Adnabod, enwi a delio gyda'u teimladau mewn ffordd gadarnhaol. Adnabod dewisiadau y gallan nhw eu gwneud, ac adnabod y gwahaniaeth rhwng da a drwg. <u>Ysgrifennu ar draws y Cwricwlwm</u> Siarad am beth maen nhw'n mynd i ysgrifennu. (BI1)	<u>STORI SAM (Rhan 1)</u> Fel dosbarth mae'r disgyblion yn cynllunio'u stori, gan edrych ar strwythur eu hysgrifennu (mae angen dechrau, canol a diwedd). esboniwch wrth y disgyblion y byddan nhw'n defnyddio eu cynllunio i lunio'u stori am Sam. Mae'r disgyblion yn defnyddio taflen cynllunio stori o'r Dasg Arbennig i'w chynllunio fel grŵp. Mae'r disgyblion yn defnyddio'r cynllunydd stori o'r Dasg Arbennig i gynllunio mewn parau. Mae'r disgyblion yn defnyddio'r cynllunydd stori o'r Dasg Arbennig i gynllunio mewn parau.	Fel ysgol rydyn ni'n teimlo ei bod hi'n bwysig rhoi amser cynllunio i'r disgyblion cyn unrhyw ddarn estynedig o ysgrifennu, a dyna pam cynhalion ni ddetholiad o sesiynau cyn ysgrifennu'r storïau, fel bod y disgyblion yn cael eu hysbrydoli i ysgrifennu. Cyn pob sesiwn Ysgrifennu Mawr, mae'r disgyblion yn cael amser i gynllunio mewn modd mwy ffurfiol, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau, o siartiau llif,

Ysgrifennu geiriau, ymadroddion a brawddegau syml a darllen eich ymdrechion eich hun yn ôl. Defnyddio sgwrsio i gynllunio ysgrifennu. (BI2)		mynyddoedd stori a byrddau stori. Mae hynny'n rhoi cyfle i'r plant grynhoi eu syniadau a dechrau eu rhoi at ei gilydd mewn dilyniant o ddigwyddiadau. Defnyddiodd y grŵp blwyddyn hwn y templed cynllunio roedd swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi'i ddarparu, ond does dim rhaid defnyddio'r un templed, bydd unrhyw fath o gynllunio ysgrifenedig yn fuddiol. Cafodd cynlluniau'r disgyblion eu rhannu gyda'r dosbarth, fel bod modd cael trafodaeth ar y pwyntiau da, yn ogystal â'r meysydd i'w gwella. Anogwyd y disgyblion i gynnwys cynifer o fanylion â phosibl yn eu cynlluniau, gan y byddai hynny'n helpu gyda'r broses o lunio'r stori y diwrnod canlynol.
Amcan Dysgu: Deall bod gwahanol fathau o bryfocio a bwlio, bod bwlio ddim yn iawn, a sut mae cael help i ddelio gyda bwlio.	<u>STORI SAM (Rhan 2)</u> Mae'r disgyblion yn defnyddio'u cynllunio o'r sesiwn flaenorol i ysgrifennu eu stori am Sam. Mae'r disgyblion yn ysgrifennu eu stori fel grŵp ac yn defnyddio cronfa o eiriau y mae'n rhaid iddyn nhw eu cynnwys yn eu stori am Sam.	Fel ysgol rydyn ni'n defnyddio'r dull Ysgrifennu Mawr ar gyfer ysgrifennu estynedig, sy'n golygu bod y plant yn cael cyfnod penodol o amser i ysgrifennu. Mae'r ystafell ddosbarth yn amgylchedd digynnwrf, gyda

Rhannu barn ar bethau sy'n bwysig iddyn nhw ac esbonio eu barn. <u>Ysgrifennu ar draws y Cwricwlwm</u> Defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â thestun eu hysgrifennu. (B1) Ffurfio llythrennau bach a mawr sydd fel arfer wedi'u ffurfio'n glir ac yn troi i'r cyfeiriad cywir. Defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn gyda rhywfaint o gysondeb. Dechrau defnyddio cysyllteiriau i ymhelaethu ar bwynt. Deall a defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu. (B2) Defnyddio geiriau syml cysylltiedig â'r pwnc yn briodol.	Mae'r disgyblion yn ysgrifennu eu storïau mewn parau ac yn defnyddio cronfa o eiriau 'WOW' y gallan nhw eu cynnwys yn eu stori am Sam. Mae'r disgyblion yn defnyddio cronfa o eiriau 'WOW' a dechreuadau brawddegau y gallan nhw eu cynnwys yn eu stori am Sam.	cherddoriaeth hamddenol yn y cefndir, goleuadau pwl a chanhwyllau ar bob bwrdd (rydyn ni'n defnyddio canhwyllau LED). Cyn pob Ysgrifennu Mawr mae'r plant yn cael set o feini prawf llwyddiant y maen nhw'n cyfeirio atynt ar hyd y broses ysgrifennu i sicrhau eu bod yn debygol o gyrraedd eu targed o ran yr amcan dysgu. Ar ôl cwblhau eu hysgrifennu, anogir y disgyblion i hunanasesu eu gwaith, gan ddefnyddio taflen cyrraedd targedau'n llwyddiannus (gweler yr adnoddau) sy'n cyfeirio at y meini prawf llwyddiant. Mae'r gweithgaredd yma yn cysylltu ag Erthygl 29: Yr hawl i fod y gorau y gallwch fod. Gall athrawon lawr lwytho fersiwn hawdd i ddarllen o'r symbolau CCUHP ar wefan y Comisiynydd Plant.
--	--	---

Ffurio llythrennau bach a mawr
yn gywir ac yn gyson o ran maint.

Defnyddio priflythrennau,
atalnodau llawn a gofynodau yn
gywir, a defnyddio ebychnodau
weithiau.

Defnyddio cysyllteiriau i lunio
brawddegau cyfansawdd.

--	--